

Profion Cenedlaethol Cymru (PCC): Casglu data 2018/2019

Casglu data PCC ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/2019

Nodiadau cwblhau technegol

Dyddiad cyhoeddi: 5 Ebrill 2019
Fersiwn: 1.0

Casgliad data PCC: 2018/19

Cynulleidfa

Penaethiaid, athrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Darperir y nodiadau cwblhau technegol hyn gan Lywodraeth Cymru fel arweiniad i gefnogi'r gynulleidfa uchod wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol.

Angen gweithredu

Rhaid i benaethiaid, athrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol sicrhau bod y gofynion a nodir yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu yn unol â'r dyddiadau a bennwyd.

Rhagor o wybodaeth

Os oes angen cyngor pellach arnoch ar gwblhau unrhyw ran o'ch ffurflen PCC, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth
Cangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 5014/0300 025 3358
e-bost: IMS@llyw.cymru / NDCmailbox@llyw.cymru



@LIC_Addysg



@AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.



ISBN Digidol 978-1-83876-098-4
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2019
WG36444

Cynnwys

1. Dyddiadau allweddol	2
2. Newidiadau mawr ers y llynedd	3
3. Trosolwg	4
4. Datblygiadau yn y dyfodol	5
4.1 Cyflwyno asesiadau personol ar-lein yn raddol	5
5. Y casgliad	6
5.1 Nodi'r disgyblion y mae'n rhaid cyflwyno data PCC ar eu cyfer	6
5.2 Ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno data PCC	6
5.3 Grŵp blwyddyn cymwys	6
5.4 Dyddiad cofrestru penodedig	7
5.5 Rhai sy'n gadael yr ysgol a rhai sy'n ymuno	7
5.6 Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dau le	8
5.7 Ysgolion heb unrhyw ddisgyblion cymwys	8
5.8 Ysgolion lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso	8
5.9 Codau PCC dilys ar gyfer 2019	8
Y Prawf Darllen Cenedlaethol - Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg	9
Y Prawf Darllen Cenedlaethol – Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg	9
Y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) – Yr holl ddisgyblion	10
5.10 Cofnodi asesiadau Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg ac adrodd arnynt	10
Profion Darllen Cenedlaethol	10
Y Prawf Rhifedd Rhesymu Cenedlaethol	11
5.11 Defnyddio cod 'X'	11
5.12 Defnyddio cod 'D'	11
5.13 Disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr (NEWBES)	12
Ymestyn cyfnod statws disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr	12
5.14 Y data sy'n ofynnol	13
Profion Darllen Cenedlaethol	13
Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg	13
Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg	14
Profion Rhifedd Cenedlaethol	14
Prawf Rhifedd Cenedlaethol	15
5.15 Dilysu gan ysgolion	15
5.16 Ffeiliau mewnforio PCC a dalenni sgoriau a gyfrifwyd	15
5.17 Adrodd	16
5.18 Y System Drosglwyddo Gyffredin	16

Adroddiadau i'r ysgolion sy'n derbyn disgyblion	16
Atodiad A: Geirfa	18

1. Dyddiadau allweddol

Dyddiadau Allweddol ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18	
Ebrill 2018	Ysgolion i gael canllawiau ar Gasglu Data Profion Cenedlaethol Cymru ac ar drefniadau adrodd gan Lywodraeth Cymru.
29 Ebrill 2019	Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWi) ar gael er mwyn lanlwytho ffeiliau PCC sydd wedi'u cwblhau.
29 Ebrill 14 i Mai 2019	Gweinyddu'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol statudol mewn ysgolion uwchradd.
7 i 14 Mai 2019	Gweinyddu'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol statudol mewn ysgolion cynradd.
14 Mai 2019	Dyddiad cofrestru.
7 Mehefin 2019	Lanlwytho sgoriau crai'r Profion Darllen Cenedlaethol a'r Profion Rhifedd Cenedlaethol i DEWi er mwyn i Lywodraeth Cymru fedru eu lawrlwytho (cofiwch y gallai awdurdod lleol bennu dyddiad cynharach er mwyn hwyluso'r broses o ddilysu'n lleol).
Erbyn diwedd tymor yr haf 2019	Ysgolion yn darparu adroddiadau i rieni.
Erbyn diwedd Awst 2019	Cyhoeddi canlyniadau cenedlaethol.

Dylai ysgolion lanlwytho eu ffeiliau gorffenedig a'u dilysu cyn gynted ag y byddant yn barod yn hytrach nag aros am y dyddiad terfynol i'w cyflwyno. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i brosesu ffeiliau a datrys problemau'n gynt.

Os caiff ysgolion anhawster i ddefnyddio DEWi (h.y. anghofio enw defnyddiwr/cyfrinair) dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol.

2. Newidiadau mawr ers y llynedd

Mae'r rhestr ganlynol yn dangos y prif newidiadau ers y casgliad cyfnod PCC blaenorol:

- dyddiadau wedi'u treiglo ymlaen o flwyddyn;
- yn dilyn dechreuad y [Rheoliadau Addysg \(Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon\) \(Cymru\) 2018](#) ar 31 Gorffennaf 2018, ni fydd data bellach yn cael ei gyhoeddi o dan lefel genedlaethol. O ganlyniad, ni fydd adroddiadau cymharol ar gael o hyn ymlaen;
- ni fydd y Prawf papur Gweithdrefn Rhifedd Cenedlaethol (NNPT) yn bodoli o'r flwyddyn academaidd 2018/19; a
- o'r flwyddyn academaidd 2018/19, mae asesiadau personol ar-lein yn cael eu cyflwyno'n raddol gyda'r asesiad cyntaf yn cymerydd lle y prawf papur NNPT; a
- nid yw'n ofynnol i ysgolion lawnlwytho data ar DEWi ar gyfer yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) ar-lein; caiff yr asesiadau eu marcio'n awtomatig a chyflwynir adroddiadau yn uniongyrchol i ysgolio ar y systemau asesu.

3. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth bwysig am gasglu data PCC a'r trefniadau adrodd ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19. Cyhoeddwyd gwybodaeth fanwl hefyd yn *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2018/19*.

Mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn canolbwyntio ar ddeall a chefnogi cynnydd dysgwyr, ac nid ar berfformiad neu atebolrwydd ysgolion.

Diben Casglu data yw safoni'r sgoriau crai o'r profion er mwyn cyfrifo cyrhaeddiad a chynnydd cymharol, a darparu'r wybodaeth hwn i ysgolion.

Dyma'r pwyntiau allweddol o ran y prosesau gweinyddol a chasglu data sy'n gysylltiedig â'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol eleni:

- Dylai ysgolion gyflwyno sgoriau crai'r Profion Darllen Cenedlaethol a'r Prawf Rhifedd Rhesymu Cenedlaethol (NNRT) ar gyfer holl ddisgyblion Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol (BCC) 2 i 9;
- Y dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r ffeil i Lywodraeth Cymru yw 7 Mehefin 2019;
- Dylid trosglwyddo pob ffeil drwy wefan DEWi; a
- Dylid cymryd pwyll wrth ddefnyddio codau D ac X. Os defnyddir y codau hyn mewn ffordd amhriodol, effeithir ar ganlyniadau'r ysgol.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi cyngor ac arweiniad ar:

- Yr holl eitemau data PCC ar lefel disgyblion sy'n rhan o'r ffeil PCC;
- Y trefniadau ar gyfer adrodd ar ganlyniadau disgyblion sy'n dod o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg (NEWBES); a
- Y trefniadau lle nad oes gan ysgolion unrhyw ddisgyblion cymwys i'w hasesu neu lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

4. Datblygiadau yn y dyfodol

4.1 Cyflwyno asesiadau personol ar-lein yn raddol

Gyda chyflwyniad graddol yr asesiadau personol ar-lein yn dechrau ô'r flwyddyn academaidd 2018/19, mae'n Prawf Cenedlaethol Rhifedd Gweithdrefnol wedi ei diddymu a bydd profion papur pellach yn cael ei diddymu yn y blynyddoedd nesaf. Yr amserlen ar gyfer y trawsnewidiadau yw:

Blwyddyn academaidd	Rhifedd (Gweithdrefnol)	Darllen (Cymraeg a Saesneg)	Rhifedd (Rhesymu)
2018/19	online	paper	paper
2019/20	online	online	paper
2020/21	online	online	online

5. Y casgliad

5.1 Nodi'r disgyblion y mae'n rhaid cyflwyno data PCC ar eu cyfer

Rhaid i bob disgybl cymwys sefyll y PCC perthnasol a rhaid i'r data gael eu cofnodi, eu hadrodd a'u casglu.

Mae'n ofynnol i ysgolion adrodd am hunaniaeth disgyblion drwy ddefnyddio:

- dangosydd grŵp BCC o'r cofnod Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD); a
- nifer y disgyblion ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig.

Mae'n bosib y byddwn yn ddadansoddi y data i weld os yw disgyblion yn cael hasesu a'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn ôl eu hiaith statudol (fel y nodir yn y CYBLD).

5.2 Ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno data PCC

Rhaid i bob ysgol a gynhelir sydd â disgyblion cymwys ar ei chofrestr ar y dyddiad penodedig wneud datganiad PCC.

5.3 Grŵp blwyddyn cymwys

Dylai pob disgybl yn BCC 2 i 9 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) perthnasol.

Y grŵp BCC y caiff y disgybl ei *addysgu* ynddo sy'n pennu a yw'n gymwys i sefyll prawf, nid dyddiad geni'r disgybl.

Caiff rhai disgyblion sefyll PCC y tu allan i'w BCC at ddibenion dadansoddi a dibenion addysgu. **Fodd bynnag, ni ellir cynnwys canlyniadau prawf disgyblion sy'n sefyll prawf 'y tu allan i'w blwyddyn' yn natganiad data'r ysgol.** Dylid ystyried cyngor gan yr awdurdod lleol perthnasol wrth wneud penderfyniad o'r fath, a'i gofnodi cyn danfon pecynnau'r profion.

I gael mwy o ganllawiau am ddisgyblion yn sefyll PCC 'y tu allan i'w blwyddyn' gweler Atodiad 5 *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2018/19*.

Dylech sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chofnodi'n gywir ar system gwybodaeth reoli'r (MIS) ysgol. Bydd meddalwedd ysgolion yn cyfeirio'n awtomatig at yr wybodaeth hon wrth allforio data ar gyfer y ffeil CDC. Ni fydd ysgolion yn gallu newid manylion y disgybl a ddewiswyd i'w allforio heb newid cofnod y disgybl.

5.4 Dyddiad cofrestru penodedig

Rhaid i ysgolion gyflwyno canlyniadau PCC ar gyfer pob disgybl cymwys sydd ar y gofrestr ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai ym mlwyddyn academiaidd yr adrodd. **14 Mai yw'r dyddiad penodedig yn 2019.**

Nodwyd bod yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai yn briodol oherwydd:

- Ni fydd y dyddiad hwn byth yn ystod gwyliau hanner tymor, nac yn disgyn ar ddiwrnod yn syth ar ôl gŵyl y banc neu wyliau hanner tymor – felly'n mae'n debygol iawn o fod yn ddiwrnod ysgol arferol.
- Dylai ysgolion dderbyn ffeil drosglwyddo gyffredin a chofnodion addysgol cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl i'r disgybl gael ei roi ar y gofrestr – felly, bydd ganddynt wybodaeth am y disgybl er mwyn eu helpu i nodi ei ganlyniadau.
- Os yw disgybl yn cyrraedd ar y diwrnod olaf (sef yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai), bydd yn rhaid i'r ysgolion ganiatáu iddo sefyll y PCC y diwrnod hwnnw, sef diwrnod olaf ffenest y prawf, neu gyflwyno ei ganlyniadau yn yr ysgol flaenorol lle safwyd y profion.

Bydd meddalwedd ysgolion yn nodi'n awtomatig pa ddisgyblion cymwys sydd ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig; ni fydd yr ysgol yn gallu newid y dewis hwn ar gyfer proses allforio ffeiliau PCC, felly mae'n bwysig bod y dyddiad derbyn i'r ysgol wedi'i gofnodi'n gywir ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol.

5.5 Rhai sy'n gadael yr ysgol a rhai sy'n ymuno

- Lle bo disgybl yn gadael yr ysgol cyn 14 Mai 2019, NID oes yn rhaid i'r ysgol gyflwyno eu canlyniadau PCC i Lywodraeth Cymru nac i'r rhieni.
- Lle bo disgybl yn gadael yr ysgol ar 14 Mai 2019 neu ar ôl hynny, yr ysgol sy'n gyfrifol o hyd am gyflwyno canlyniadau PCC y disgybl i Lywodraeth Cymru.
- Lle bo disgybl yn ymuno â'r ysgol ar 14 Mai 2019 neu cyn hynny, rhaid i'r ysgol dderbyn cyfrifoldeb am gyflwyno canlyniadau PCC y disgybl i Lywodraeth Cymru ac i'r rhieni.
- Lle bo disgybl yn ymuno â'r ysgol ar ôl 14 Mai 2019, yr ysgol flaenorol sy'n gyfrifol am gyflwyno canlyniadau PCC. Nid oes angen i ysgol newydd y disgybl gyflwyno data i Lywodraeth Cymru.
- Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data o ysgol flaenorol y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol newydd y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

5.6 Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dau le

Rhaid i ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dau le sefyll y PCC rhwng BCC 2 – 9 a rhaid cyflwyno'u canlyniadau. Rhaid cynnwys hefyd ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru'n rhannol mewn uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig.

- Lle bo disgybl wedi'i gofrestru mewn dau leoliad, cyfrifoldeb y lleoliad lle caiff y disgybl ei addysgu fynychaf yw cyflwyno eu canlyniadau PCC statudol. Caiff disgyblion sydd 'Wedi'u cofrestru mewn dau le-Prif' **(M)** mewn uned cyfeirio disgyblion gyflwyno eu data drwy gyfrwng eu system gwybodaeth reoli neu daenlen wrth gefn. Gallwch anfon e-bost i NDCmailbox@llyw.cymru er mwyn cael taenlen wrth gefn.
- Yn y sefyllfa hon, dylai ysgolion gyfathrebu â'i gilydd a dylid cadw cofnodion o ganlyniadau profion yn y naill leoliad a'r llall.
- Bydd systemau gwybodaeth reoli ysgolion yn defnyddio statws cofrestru disgyblion i ganfod disgyblion priodol i'w cynnwys ar y ffeil PCC. Rhaid cynnwys disgyblion â statws cofrestru 'Presennol' **(C)** neu 'Wedi'u cofrestru mewn dau le-Prif' **(M)** yn y datganiad PCC.

5.7 Ysgolion heb unrhyw ddisgyblion cymwys

Mae disgwyl i bob ysgol sydd â disgyblion cymwys ddychwelyd canlyniadau PCC.

Os nad oes gan sefydliad unrhyw ddisgyblion sy'n gymwys i sefyll y PCC, hynny yw, dim disgyblion ar y gofrestr yn BCC 2 i 9 ar 14 Mai 2019, dylai'r pennaeth anfon neges e-bost yn cadarnhau hynny i NDCmailbox@llyw.cymru.

5.8 Ysgolion lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso

Os yw'r holl ddisgyblion cymwys mewn sefydliad wedi'u datgymhwyso, dylid cofnodi'r data hyn yn unol â'r prosesau a ddisgrifir yn y ddogfen hon a dylid dychwelyd ffeil PCC i'r awdurdod lleol.

5.9 Codau PCC dilys ar gyfer 2019

Rhaid cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob disgybl a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru, ar gyfer pob prawf a safwyd:

- y sgôr grai;
- y prawf a safwyd; and
- dyddiad sefyll y prawf – rhaid i'r dyddiad fod yn un dilys o fewn y cyfnod a bennwyd ar gyfer y profion er mwyn caniatáu cyfrifo'n gywir y sgôr safonedig yn ôl oedran.

Noder y bydd ystod y sgoriau crai dilys yn amrywio gan ddibynnu ar ba un o bapurau'r PCC sy'n cael ei sefyll. Dylid bod yn ofalus wrth nodi'r sgôr grai.

Yn y tablau isod, ceir codau dilys papurau prawf a gwerthoedd sgoriau crai ar gyfer pob PCC. Dylai canllawiau gan gyflenwyr meddalwedd System Gwybodaeth Reoli eich ysgol nodi manylion fformat cofnodi dilys ar gyfer yr eitem data 'Dyddiad sefyll y prawf'.

Y Prawf Darllen Cenedlaethol - Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol	Dychwelyd canlyniadau'r profion yn orfodol				Dychwelyd canlyniad y prawf yn opsiynol	
	Papur PDC Cymraeg	Ystod Sgôr Grai PDC Cymraeg	Papur NRT Saesneg	Ystod Sgôr Grai NRT Saesneg	Papur NRT Saesneg	Ystod Sgôr Grai NRT Saesneg
BCC2	CA7	D, X, 0 – 35	-	-	-	-
BCC3			-	-	EA7	D, X, 0 – 33
BCC4	CB7	D, X, 0 – 35	EB7	D, X, 0 – 38	-	-
BCC5					-	-
BCC6	CC7	D, X, 0 – 40	EC7	D, X, 0 – 40	-	-
BCC7					-	-
BCC8	CD7	D, X, 0 – 42	ED7	D, X, 0 – 43	-	-
BCC9					-	-

Y Prawf Darllen Cenedlaethol – Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg

Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol	Dychwelyd canlyniadau'r profion yn orfodol	
	Papur NRT Saesneg	Ystod Sgôr Grai NRT Saesneg
BCC2	EA7	D, X, 0 – 33
BCC3		
BCC4	EB7	D, X, 0 – 38
BCC5		
BCC6	EC7	D, X, 0 – 40
BCC7		
BCC8	ED7	D, X, 0 – 43
BCC9		

Y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) – Yr holl ddisgyblion

Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol	Dychwelyd canlyniadau'r profion yn orfodol Cymraeg <u>NEU</u> Saesneg		
	Papur rhesymu (fersiwn Saesneg)	Papur rhesymu (fersiwn Cymraeg)	Ystod Sgôr Grai y Prawf Rhesymu
BCC2	2ER19	2CRh19	D, X, 0 – 20
BCC3	3ER19	3CRh19	D, X, 0 – 20
BCC4	4ER19	4CRh19	D, X, 0 – 20
BCC5	5ER19	5CRh19	D, X, 0 – 20
BCC6	6ER19	6CRh19	D, X, 0 – 20
BCC7	7ER19	7CRh19	D, X, 0 – 20
BCC8	8ER19	8CRh19	D, X, 0 – 20
BCC9	9ER19	9CRh19	D, X, 0 – 20

D = Wedi'i Ddatgymhwyso am unrhyw un o'r rhesymau a restrir yn *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2018/19*.

X = Absennol ar ddyddiad y prawf ac am weddill cyfnod y prawf

DS: Mae papurau'r Profion Rhifedd Rhesymu Cymraeg a Saesneg yn gyfieithiadau uniongyrchol, felly dylai disgyblion sefyll y profion yn yr iaith sydd fwyaf priodol iddynt yn unol â phenderfyniad yr ysgol. Dylid sefyll y prawf Cymraeg neu Saesneg, ond nid y ddau. Dim ond un canlyniad i'r Prawf Rhifedd Rhesymu Cenedlaethol (Cymraeg NEU Saesneg) y dylid ei ddychwelyd ar gyfer pob disgybl.

5.10 Cofnodi asesiadau Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg ac adrodd arnynt

Bydd System Gwybodaeth Reoli'r ysgol yn defnyddio'r iaith yr addysgwyd y disgybl ynddi fel y nodwyd yng nghofnodion y disgyblion ac yn y CYBLD.

Mae'n bosib y byddwn yn ddadansoddi y data i weld os yw disgyblion yn cael hasesu a'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn ôl eu hiaith statudol (fel y nodir yn y CYBLD).

Profion Darllen Cenedlaethol

Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg:

Rhaid i bob disgybl yn BCC 2 i 9 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Cymraeg.

Rhaid i bob disgybl yn BCC 4 i 9 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg hefyd.

Nid oes raid i ddisgyblion BCC 2 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg.

Mae dewis gan ysgolion hefyd i roi'r Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg i ddisgyblion BCC 3 yn ogystal â'r Prawf Darllen Cenedlaethol Cymraeg, a gellir cyflwyno canlyniadau'r disgyblion hyn ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg i

Lywodraeth Cymru. Os cânt eu cyflwyno, caiff siartiau eu cynhyrchu ar gyfer pob disgybl er mwyn hysbysu ei rieni.

Disgyblion a addysgir drwy **gyfrwng y Saesneg**:

Rhaid i bob disgybl yn BCC 2 i 9 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg.

Y Prawf Rhifedd Rhesymu Cenedlaethol

Rhaid i bob disgybl yn BCC 2 i 9 sefyll y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

Mae'r papurau prawf ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae cynnwys y prawf yn union yr un fath yn y ddwy iaith. Dylid sefyll y prawf Cymraeg **neu** Saesneg, ond nid y ddau, a dylid cyflwyno canlyniad y prawf hwnnw. Dim ond **un** canlyniad ac **un** canlyniad **Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)** y caiff ysgolion eu cael ar gyfer pob disgybl, a chaiff hwn fod yn Gymraeg neu'n Saesneg ni waeth beth fo iaith statudol y disgybl.

5.11 Defnyddio cod 'X'

Dim ond os yw disgybl yn absennol ar ddyddiad y prawf, ac am weddill y cyfnod a neilltuwyd ar gyfer cynnal y profion, y dylid defnyddio cod 'X'. Os bydd disgybl yn colli prawf oherwydd absenoldeb ond yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod y cyfnod a neilltuwyd ar gyfer cynnal y profion, dylid gwneud trefniadau i'r disgybl sefyll y prawf. I gael mwy o ganllawiau am absenoldeb yn ystod y cyfnod a neilltuwyd ar gyfer cynnal y profion, darllenwch *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2018/19*.

Caiff disgyblion sy'n cael y cod hwn eu cynnwys yng nghanlyniadau eu hysgol.

5.12 Defnyddio cod 'D'

Dylid defnyddio cod 'D' am y rhesymau a restrir yn *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2018/19* yn unig.

Dim ond o dan yr amgylchiadau penodol hyn y mae datgymhwyso'n ddilys, ac **NI** ddylid ei ddefnyddio o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

Caiff disgyblion sy'n cael y cod hwn eu cynnwys yng nghanlyniadau eu hysgol.

5.13 Disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr (NEWBES)

Rhaid i ddisgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr sefyll PCC oni bai bod rhesymau penodol dros ddatgymhwyso. Fodd bynnag, gellir eithrio canlyniadau eu profion wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol. Dyma'r meini prawf y dylid eu defnyddio yn achos disgyblion y caniateir peidio â chynnwys eu canlyniadau mewn ystadegau ar lefel ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol:

- nid Cymraeg na Saesneg yw iaith gyntaf y disgybl; **ac**
- mae'r disgybl wedi cyrraedd o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg; **ac**
- mae'r disgybl wedi ymuno â system addysg y Deyrnas Unedig (DU) ar ddechrau blwyddyn ysgol 2017/2018 neu ar ôl hynny, hynny yw ar 1 Medi 2017 neu ar ôl hynny.

Mater i'r pennaeth fydd penderfynu a yw canlyniadau disgybl sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn cael eu tynnu o ystadegau cyfanredol yr ysgol a'r awdurdod lleol. Os gwneir y penderfyniad i dynnu'r canlyniadau oddi yno, bydd hynny'n berthnasol i bob prawf. Ni fydd yn bosibl cynnwys canlyniadau disgybl ar gyfer rhai profion ond eu heithrio ar gyfer eraill.

Rhaid i holl ganlyniadau'r disgyblion hyn gael eu hadrodd i'r rhieni a rhaid eu cynnwys yn ffeil datganiad data PCC.

Drwy nodi cofnodion disgybl yn gywir yn System Gwybodaeth Reoli'r ysgol i ddangos bod y disgybl yn bodloni'r meini prawf uchod a thrwy roi dyddiad mynediad dilys, bydd canlyniadau disgyblion o'r fath yn cael eu hepgor wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol yr ysgol a'r awdurdod lleol. **Bydd** eu data yn cael eu cynnwys yn y canlyniadau cenedlaethol, fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf.

Pan fydd disgybl cymwys wedi bod yn yr ysgol am fwy na dwy flynedd, ni ellir hepgor ei ganlyniadau. Fodd bynnag, bydd cofnod y disgybl yn dal i ddangos ei fod wedi dod o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg.

Ymestyn cyfnod statws disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr

Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau pellach mewn perthynas â NEWBES yn y ddogfen 'Adrodd ar Berfformiad Ysgolion – Bwletin 1', am y disgresiwn sydd ar gael i awdurdodau lleol ymestyn cyfnod y statws NEWBES mewn sefyllfaoedd penodol lle mae'r disgyblion yn gadael y DU ac yna'n dychwelyd. Mae'r bwletin ar gael yma:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/using-school-information-and-reporting-on-performance/?skip=1&lang=cy>

Lle penderfynir ymestyn cyfnod statws NEWBES disgybl, bydd angen nodi manylion cywir yn ei gylch ar system gwybodaeth reoli'r ysgol o ran meini prawf NEWBES, a newid y dyddiad o ran pryd yr ailddechreuodd yn yr ysgol. Os nodir bod disgybl wedi

dechrau yn yr ysgol cyn 1 Medi 2017 (h.y. mwy na'r cyfnod dwy flynedd), caiff ei gynnwys yn niferoedd yr ysgol a'r awdurdod lleol.

Nodwch y bydd estyniadau i statws NEWBES yn cael ei monitro gan Llywodraeth Cymru and fydd patrymau anarferol yn cael eu dilyn i fyny hefo'r awdurdod lleol.

5.14Y data sy'n ofynnol

Profion Darllen Cenedlaethol

Rhaid cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob disgybl a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

- sgôr grai ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol;
- y prawf a safwyd; a
- dyddiad sefyll y prawf.

Nodir y gofynion adrodd mewn perthynas â chanlyniadau'r Prawf Darllen Cenedlaethol isod.

Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol	Pwnc	Disgrifiad o'r Efen	Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Sgôr Grai Darllen)	Adroddiad i Rieni (Sgôr Safonedig a chynnydd*)
BCC2	CYM	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC3	CYM	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC3	ENG	Sgôr Grai Darllen	O	G**
BCC4	CYM	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC4	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC5	CYM	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC5	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC6	CYM	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC6	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC7	CYM	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC7	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC8	CYM	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC8	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC9	CYM	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC9	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G

Gorfodol (G) Opsiynol (O)

* Bydd Dalen Canlyniadau Disgybl ar gyfer pob prawf a safwyd sy'n cynnwys sgôr safonedig disgybl a siart cynnydd i'w cael drwy'r system DEWi cyn diwedd tymor yr haf. Bydd siartiau disgyblion BCC 3 yn cael eu cynnwys hefyd yn achos y rheini sydd wedi sefyll papur opsiynol y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg.

** Os bydd disgybl BCC 3 yn sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg opsiynol, yna rhaid rhoi'r canlyniadau i'r rhieni.

Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg

Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol	Pwnc	Disgrifiad o'r Efen	Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Sgôr Grai Darllen)	Adroddiad i Rieni (Sgôr Safonedig a chynnydd*)
BCC2	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC3	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC4	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC5	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC6	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC7	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC8	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G
BCC9	ENG	Sgôr Grai Darllen	G	G

Gorfodol (G)

* Bydd Dalen Canlyniadau Disgybl ar gyfer pob prawf a safwyd sy'n cynnwys sgôr safonedig disgybl a siart cynnydd i'w cael drwy'r system DEWi cyn diwedd tymor yr haf.

Profion Rhifedd Cenedlaethol

Rhaid cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob disgybl a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

- sgôr grai ar gyfer y Prawf Rhifedd Rhesymru Cenedlaethol;
- y prawf a safwyd; a
- dyddiad sefyll y prawf.

Nodir y gofynion adrodd mewn perthynas â chanlyniadau'r Prawf Rhifedd Rhesymu Cenedlaethol isod.

Prawf Rhifedd Cenedlaethol

Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol	Pwnc	Disgrifiad o'r Efen	Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Sgôr Grai)	Adroddiad i Rieni (Sgôr Safonedig a chynnydd*)
BCC2	MAT	Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu	G	G
BCC3	MAT	Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu	G	G
BCC4	MAT	Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu	G	G
BCC5	MAT	Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu	G	G
BCC6	MAT	Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu	G	G
BCC7	MAT	Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu	G	G
BCC8	MAT	Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu	G	G
BCC9	MAT	Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu	G	G

* Bydd Dalen Canlyniadau Disgybl ar gyfer pob prawf a safwyd sy'n cynnwys sgôr safonedig disgybl a siart cynnydd i'w cael drwy'r system DEWi cyn diwedd tymor yr haf.

5.15 Dilysu gan ysgolion

Rhaid i ysgolion ddilysu'r sgoriau crai y maent wedi'u cyflwyno i DEWi gan ddefnyddio'r Ddalen Dilysu Sgoriau Crai. Y dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno yw 7 Mehefin 2019.

5.16 Ffeiliau mewnforio PCC a dalenni sgoriau a gyfrifwyd

Caiff canlyniadau PCC eu safoni'n fyw ym mis Mehefin, a chynhyrchir tablau i gyfeirio atynt. Bydd DEWi wedyn yn defnyddio'r tablau hyn i gyfrifo, ar gyfer pob disgybl, y sgôr safonedig a'r sgôr cynnydd ar gyfer pob prawf, a'r gwahaniaeth yn y sgoriau cynnydd.

Bydd sgôr a gaiff ei alw'n Arwyddocâd Cynnydd hefyd ar gael yn y ffeiliau mewnforio a'r taflenni sgoriau cyfrifedig. Caiff ei adrodd ar gyfer pob disgybl ar gyfer pob prawf lle maent wedi sefyll y profion yn y drefn briodol ar gyfer eu grŵp oedran mewn blynyddoedd dilynol; hy. adroddir ar Arwyddocâd Cynnydd disgybl ym Mlwyddyn 4 sydd wedi sefyll papur Prawf Rhesymu Blwyddyn 3 yn 2018 a Phrawf Rhesymu Blwyddyn 4 yn 2019. Ni adroddir ar Arwyddocâd Cynnydd disgybl nad yw wedi dilyn y llwybr arferol ee. disgybl sydd wedi ei ddal yn ôl am flwyddyn.

Adroddir Arwyddocâd Cynnydd mewn tri band – Uwch (U), Cyson (C) ac Is (I). Gallai disgybl sydd wedi gwneud cynnydd a sgorir yn y band uwch gael budd o waith mwy heriol, o bosib. Ar y llaw arall, efallai y gellid rhoi mwy o gefnogaeth i ddisgybl y mae ei gynnydd wedi'i sgorio yn y band is.

Bydd un ffeil fewnforio ar gyfer 2019 (xml) ar gael o DEWi cyn diwedd tymor yr haf, i alluogi ysgolion i fewnforio'r sgoriau a gyfrifwyd ar gyfer holl brofion a disgyblion 2018 yn ôl i'w System Gwybodaeth Reoli. Bydd y ffeil fewnforio'n un ffeil yn cynnwys canlyniadau'r Prawf Darllen Cenedlaethol a'r Prawf Rhifedd Rhesymu Cenedlaethol, o'r enw 'PCC'. Bydd dalen sgoriau a gyfrifwyd hefyd ar gael o DEWi a fydd yn nodi'r un

data mewn taenlen, a bydd yn golygu bod ysgolion yn gallu gweld sut y cyfrifwyd manylion dalen canlyniadau'r disgyblion.

Dylech nodi, os cyflwynir sgôr grai o '0' ar gyfer disgybl, bydd y sgôr safonedig yn cael ei chofnodi fel *, sy'n golygu 'llai na 70'.

Os bydd sgôr safonedig disgybl yn uwch na'r sgôr uchaf bosibl, caiff ei gofnodi fel **.

5.17 Adrodd

Dylai Dalenni Canlyniadau Disgybl i rieni fod ar gael gan DEWi cyn diwedd tymor yr haf (cewch wybod yr union ddyddiad yn nes at yr amser). Bydd y rhain yn nodi sgôr safonedig y disgybl a siart cynnydd. Bydd yna nodiadau i esbonio'r Ddalen Canlyniadau i helpu rhieni i'w deall.

Bydd modd lawrlwytho'r adroddiadau hyn fesul grŵp blwyddyn a fesul criw yn Gymraeg/yn Saesneg/yn ddwyieithog (gefn wrth gefn) a dylid eu dosbarthu i rieni cyn diwedd tymor yr haf. Os bydd gan fwy nag un disgybl yn yr ysgol yr un enw, caiff ffeil testun ei chynnwys yn nodi hyn er gwybodaeth. Dylai'r ysgolion ofalu bod yr adroddiad cywir yn cael ei anfon at y rhieni cywir, a bod yr adroddiadau yn cael ei rhannu yn ddiogel..

Os darganfyddir unrhyw wallau yng nghanlyniadau PCC ar ôl y dyddiad cau i'w cyflwyno, bydd disgwyl i ysgolion gynhyrchu eu Dalenni Canlyniadau Disgybl eu hunain gan ddefnyddio'r templed a ddarperir (ar gais) a'r tablau cyfeirio a gyhoeddwyd ar wefan Dysgu Cymru.

5.18 Y System Drosglwyddo Gyffredin

Yn ôl y rheoliadau sy'n ymdrin â'r System Drosglwyddo Gyffredin, sef Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011, mae gofyn i bennaeth ysgol a gynhelir y mae disgybl yn trosglwyddo ohoni anfon i ysgol newydd y disgybl set safonol o wybodaeth am y disgybl, ar fformat electronig, i'w rhoi yn uniongyrchol i mewn i System Gwybodaeth Reoli'r ysgol newydd.

Bydd data'r PCC yn cael eu trosglwyddo drwy'r System Drosglwyddo Gyffredin (CTF) yn 2019.

Adroddiadau i'r ysgolion sy'n derbyn disgyblion

Pan fydd disgybl yn symud o ysgol a gynhelir i ysgol newydd, gan gynnwys ysgol annibynnol, dylid cyflwyno adroddiad am gyraeddiadau'r disgybl, os yw hynny'n rhesymol ymarferol, i bennaeth yr ysgol dderbyn. Mae'n ofynnol gwneud hyn o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl tynnu enw'r disgybl oddi ar gofrestr ei hen ysgol, neu o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn cais am yr adroddiad gan yr ysgol newydd.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys canlyniadau PCC y disgybl os ydynt ar gael.

Nid oes dyletswydd i ddarparu adroddiad o'r fath i ysgol newydd y disgybl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'r disgybl wedi ei gofrestru yn yr ysgol ers llai na phedair wythnos. Er hynny, mewn achos o'r fath, dylai'r pennaeth wneud pob ymdrech i roi i'r ysgol newydd unrhyw adroddiadau a drosglwyddwyd o ysgol neu ysgolion blaenorol y disgybl;
- os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r pennaeth ddod o hyd i fanylion ysgol newydd y disgybl. Fodd bynnag, dylai'r pennaeth o leiaf ffonio rhieni'r disgybl ac, os yw eu cyfeiriad yn hysbys, ysgrifennu atynt i holi ymhle y bydd y disgybl yn parhau â'i addysg.

Dosbarthwyd canllawiau ar y Gofynion Trosglwyddo Cyffredin i ysgolion ym mis Mai 2006, Cylchlythyr Rhif 18/2006 'Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin'.

Ceir mwy o gyfarwyddyd a gwybodaeth am y System Drosglwyddo Gyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/dataexchange/?skip=1&lang=cy>.

Atodiad A: Geirfa

Defnyddir y byrfoddau canlynol drwy'r ddogfen i gyd:

SDG	Y System Drosglwyddo Gyffredin
BCC	Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol
NSACLI	Newydd i System Addysg Cymru a Lloegr
PCGRh	Prawf Cenedlaethol Gweithdrefnol Rhifedd
PCRhRh	Prawf Cenedlaethol Rhesymu Rhifedd
PDC	Prawf Darllen Cenedlaethol
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
PCC	Profion Cenedlaethol Cymru (yn cynnwys pob prawf)